



CYNGOR RHONDDA CYNON TAF - Y GRŴP LLYWIO DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL

Cofnodion cyfarfod ar-lein y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd ddydd Llun, 11 Ionawr 2021 am 2.00pm

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A. Crimmings Y Cynghorydd J. Brencher
Y Cynghorydd S Rees-Owen

Aelodau Cyfetholedig oedd yn bresennol:-

Mr C Coppock
Ms M Dunning

Swyddogion yn bresennol:-

Mr P Mee Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms C O'Neill, Rheolwr Strategol – Y Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Ms A Hayes, Rheolwr y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol
Mrs A Gould, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaeodd

28 Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Rosser a G Hughes.

29 Croeso

Estynnodd y Cadeirydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis, sy'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cryfach, Lles a Gwasanaethau Diwylliannol groeso i aelodau'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol. Gwnaeth y Cynghorydd Lewis sylwadau ar y flwyddyn heriol ddiwethaf a chadarnhaodd fod staff y Celfyddydau wedi cael eu hadleoli i gefnogi gwasanaethau â blaenoriaeth, megis y Canolfannau Cydnerthedd yn y Gymuned, preswylwyr a oedd yn gwarchod, ac yn ddiweddarach, y Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu a Phrofi Torfol (a adlewyrchwyd yn yr adroddiad i'r Panel ar hynt y Celfyddydau yn RhCT yn ystod pandemig COVID-19).

Diolchodd y Cadeirydd i'r staff am eu hymdrechion dros y 12 mis diwethaf a chyfeiriodd at y diweddariad yn nes ymlaen yn y cyfarfod a fyddai'n rhoi trosolwg

o'r gweithgareddau ar-lein sydd wedi parhau yn ystod y cyfnod clo.

30 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees-Owen - Mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda 'Gwasanaethu Ein Cymunedau yn ystod Pandemig Covid-19' - "Rwyf wedi derbyn Cyllid Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adfer Diwylliant a weinyddwyd gan y Gwasanaeth Celfyddydau ar ran rhaglen Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher - Mewn perthynas ag Eitem 4 'Gwasanaethu Ein Cymunedau yn ystod Pandemig Covid-19' - "Rwy'n Gyfarwyddwr ar yr YMCA"

31 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020 yn rhai cywir.

32 Rhaglen Waith y Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol 2020/21

Amlinellwyd pwrpas yr adroddiad i'r Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol, ynghyd â gwybodaeth am y materion allweddol i'w trafod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21.

Trafododd yr Aelodau y themâu allweddol ar y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol ar gyfer gweddill Blwyddyn y Cyngor 2020/21, a chyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer yr 17 Mawrth 2021, lle bydd diweddariad ar hynt Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn y Miwni. Yn ogystal â hynny, nododd aelodau'r Grŵp Llywio y pynciau i'w trafod yn y dyfodol, gan gynnwys yr Eisteddfod a pharatoadau ar gyfer y Rhaglen Celfyddydau Diwylliannol a'r cysylltiad â'r cwricwlwm Addysg ar gyfer 2021/22.

Mewn ymateb i ymholiad am ddod â'r cyfranogwyr allweddol ynghyd i gymryd rhan mewn trafodaethau ehangach o ran yr YMCA, Llyfrgell Pontypridd a'r Miwni, sydd oll o fewn chwarter gelfyddydau Pontypridd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau'r Gymuned fod awydd i ddod â sefydliadau ynghyd, ac y byddai'r Grŵp Llywio yn derbyn diweddariad am y cyfle hwn i randdeiliaid allweddol gwrdd maes o law.

Canmolodd aelod o'r Grŵp Llywio garfan RhCT am ei gwaith caled, sydd wedi'i gydnabod gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ond cododd ymholiad ynglŷn â'r cynllun busnes ar gyfer y ddwy fenter a phwysigrwydd sicrhau bod y ddwy fodel yn dal dŵr.

Dywedodd y Cadeirydd fod cynaliadwyedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth o ran sut mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, ac ychwanegodd fod y Cabinet hefyd yn ymwybodol o'r cymorth refeniw y bydd ei angen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant, ei bod hi'n dda trafod buddsoddiad yn 'Chwarter y Celfyddydau' ym Mhontypridd, ac er bod y gwaith ar y Miwni wedi'i ohirio

oherwydd Covid 19, mae ymgynghoriad ar y gweill ac mae'r Cyngor wedi ailedrych ar y cynllun busnes ar y cyd ag **Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen**. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y Cyngor wedi ymrwmo'n llawn i'r fenter o safbwynt ariannol a safbwynt cefnogol. Ychwanegodd y byddai diweddariad ynghylch yr ymgynghoriad parhaus, y broses dendro a'r gwaith adeiladu yn cael ei ddarparu i'r Grŵp Llywio yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2021.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r rhaglen waith ddrafft yn ddarostyngedig i unrhyw flaenoriaethau sy'n newid trwy gydol y flwyddyn.

33 **Gwasanaethu ein Cymunedau yn ystod Pandemig COVID-19**

Cyflwynodd Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n amlinellu cynnydd Gwasanaethau Celfyddydau RhCT o ran gwasanaethu'r gymuned yn ystod pandemig Covid-19 yn 2020.

Rhoddodd y Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant drosolwg o ddull gweithredu'r gwasanaeth ers i holl theatrau RhCT gael eu cau ym mis Mawrth 2020, ac yn dilyn gohirio neu ganslo pob achlysur byw. Cafodd nifer o wasanaethau eu trosglwyddo i lwyfan ar-lein ac maen nhw wedi bod yn ymdrechu i ddenu cynulleidfaoedd o bob oed ers hynny.

Dywedwyd wrth y Grŵp Llywio bod nifer o staff Gwasanaeth y Celfyddydau, yr Uwch Arweinwyr a rheolwyr ehangach yn cael eu hadleoli i gynorthwyo gyda'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, gyda staff eraill yn cefnogi'r Canolfannau Cydnerthedd yn y Gymuned.

Gan fod y Cyngor yn gleient Portffolio Celfyddydol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, clywodd yr Aelodau am y rhaglen gynhwysfawr o achlysuron a gweithgareddau am ddim a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2020. Arweiniodd hyn at dudalennau Facebook Theatr y Colisëwm a Theatr y Parc a'r Dâr yn cael eu gweld fwy na 347,356 o weithiau. Yn ogystal â hynny, mae carfan y Celfyddydau a'r Diwylliannau Creadigol wedi ymgysylltu a nifer o blant a phobl ifainc drwy'r rhaglenni Celfyddydau Ieuentid a Cherddoriaeth Ieuentid SONIG, Forte (gyda chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad PRS) a Beacons (gyda chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru a rhaglen Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru).

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y gefnogaeth ariannol a ddarparwyd i'r Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol, fel Cyllid Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adfer Diwylliant. Gwnaeth 181 o ymgeiswyr cymwys gais am y cymorth yma ac fe gawson nhw grant o £2,500 yr un.

I gloi, nododd y Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant y byddai 2021 yn flwyddyn o fyfyrion ar gyfer Gwasanaeth y Celfyddydau, ac yn gyfle i drafod â staff, cydweithwyr a'r trydydd sector, yn ogystal ag ymateb i effaith y pandemig ar y Gwasanaeth a chyflawni adolygiad o'r prosesau a'r gweithdrefnau. Trosglwyddwyd gwybodaeth hefyd mewn perthynas â'r llinynnau cyllid refereniw, megis y dyfarniadau gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Rhoddwyd cyfle i'r Grŵp Llywio ofyn cwestiynau am effaith y pandemig ar blant

a phobl ifainc, a ph'un a oes cynlluniau er mwyn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth Celfyddydau a Diwylliant i weithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Addysg, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Rheolwr Strategol - Y Celfyddydau a Diwylliant fod y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn cynnwys gweithgareddau dwyieithog ac amlygodd waith penodol sydd ar ddod.

Roedd y trafodaethau'n ymwneud â ph'un a oes modd i lyfrgelloedd chwarae rhan fwy blaenllaw wrth annog pethau fel adrodd straeon a chystadlaethau, a hynny ymhlith trigolion o bob oed a chymunedau lleol gan y bu mwy o ddi-ddordeb mewn hanes lleol yn ystod y cyfnod clo. Mewn ymateb, adroddwyd bod nifer o brosiectau ar-lein wedi bod yn mynd rhagddynt, gan gynnwys rhai gyda phobl ifainc, ac fe ddatblygwyd perthynas agos rhwng y Llyfrgell a'r Gwasanaethau Celfyddydau, gyda'r llyfrgelloedd yn cynnal nifer o gystadlaethau ysgrifennu ac yn casglu hen ffotograffau ar gyfer y blodeugerddi blynyddol.

Cydnabu'r Cadeirydd dalent awduron lleol y cyhoeddwyd eu gwaith yn ddiweddar a nododd sut mae modd eu dathlu a'u hyrwyddo drwy'r llyfrgelloedd lleol.

Er bod dim modd i wasanaethau ar-lein a digidol ddisodli'r profiad o fwynhau perfformiad byw i gynulleidfaoedd, cydnabu'r Aelodau fod y gwasanaethau digidol wedi gwasanaethu'r cymunedau'n dda yn ystod y cyfnod clo, gan alluogi llawer o breswylwyr i ymgysylltu â gwasanaeth y Celfyddydau. Roedd llawer yn gobeithio y byddai Cyngor Celfyddydau Cymru cofio am y cymoedd ac nid y brifddinas yn unig.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â dychwelyd i theatrau byw a ph'un a fydd angen i gynulleidfaoedd ddangos cardiau brechlyn, nododd y Cyfarwyddwr Cyfadran, Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, ei bod hi'n dal yn rhy gynnar i ragweld sut y bydd theatrau'n dychwelyd. Bydd tystiolaeth wyddonol yn llywio'r dychweliad i berfformiadau byw mewn theatrau.

Rhoddodd staff Gwasanaethau'r Celfyddydau a oedd yn bresennol wybodaeth am eu profiadau ar ôl cael eu hadleoli i'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu a phwysleisiwyd pwysigrwydd y gwaith a'r cysylltiad â'r cymunedau lleol.

Myfyriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, ar brofiadau staff a chanmol holl staff y cyngor am eu cyfraniadau i'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu, a oedd wedi'i sefydlu'n gyflym ac yn effeithiol. Dywedodd fod talent staff y Gwasanaeth Celfyddydau a staff o bob rhan o'r Cyngor, wedi cyfrannu at lwyddiant y gwasanaeth, a nododd y byddai'r profiad yn newid y ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'i gymunedau.

Atgyfnerthodd y Cadeirydd y neges o ddiolch i'r holl staff a nododd fod y Cyngor wedi ennyn parch sylweddol yn dilyn ei ymateb i'r pandemig a'r cyswllt rhwng ei staff â thrigolion. Diolchodd i'r Swyddogion ac aelodau'r Grŵp Llywio am eu sylwadau a'u hymgysylltiad yn y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 17 Mawrth 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05pm

**Y CYNGHORYDD R LEWIS
CADEIRYDD.**